



# GWERTHU I GYNGOR SIR CEREDIGION

Nod y llawlyfr hwn yw helpu darpar gyflenwyr a chontractwyr i ddeall sut mae Cyngor Ceredigion yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith ar hyn o bryd a'u helpu i wella'u siawns o gael gwybod am y cyfleoedd ac ymgeisio am waith.

*Llawlyfr i Gyflenwyr a Chontractwyr*

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Beth yw'r drefn gaffael? | 2 |
| Ble alla i gael gwybod am gyfleoedd contractio? | 3 |
| Pa reolau, rheoliadau a gweithdrefnau caffael y mae'r Cyngor yn eu dilyn? | 4 |
| Sut mae cyflenwyr yn cael eu dethol a'u penodi? | |
| Rhoi gwybod i gyflenwyr | 6 |
| Dewis cyflenwyr addas a chymwysedig | 7 |
| Cyflwyno dyfynbris neu dendr a'r broses werthuso | 8 |
| Dyfarnu contract | 8 |
| Budd i'r gymuned | 9 |
| Pam ydym ni'n defnyddio cytundebau fframwaith? | 10 |
| Ceisiadau consortia a cheisiadau cydweithredol | 10 |
| A oes modd i'r sefydliadau sy'n tendro gael adborth? | 11 |
| Sut y mae'r Cyngor yn talu'i gyflenwyr? | 11 |
| Monitro a rheoli contractau | 11 |
| Gair i gall | 12 |
| Mwy o gymorth | 13 |
| Rydym yn awyddus i glywed gennych chi | 13 |
| Gwefannau defnyddiol | 14 |
| Manylion cyswllt defnyddiol | 15 |
| Manylion cyswllt swyddogion caffael y sector cyhoeddus yng Ngheredigion | 16 |

# Beth yw'r drefn gaffael?

Mae Cyngor Ceredigion yn gwario dros £60 miliwn y flwyddyn i gaffael ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan sefydliadau allanol yn y sector preifat a'r trydydd sector.

Mae'n rhaid i'r Cyngor reoli'r gwariant hwn yn effeithlon ac yn effeithiol, gan ddilyn cyfres o reolau cadarn, sef Rheolau'r Weithdrefn Gontractio a'r Rheoliadau Ariannol. Mae gan y Cyngor hefyd Strategaeth Gaffael sy'n cydweddu â Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru a nodau ac amcanion ehangach y Cyngor. Gallwch weld y Strategaeth Gaffael a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor yn y cyfeiriad isod:

https://www.ceredigion.gov.uk/media/2071/procurement-strategy-2018-2022-v8-cymraeg.pdf

.

## Ble alla i gael gwybod am gyfleoedd contractio?

Mae Cyngor Ceredigion yn cyhoeddi cyfleoedd contractio drwy un o ddwy system:

- **GwerthwchiGymru** yw gwefan gaffael genedlaethol Cymru; mae'n cynnwys yr holl gyfleoedd contractio islaw ac uwchlaw trothwyon yr UE sy'n cael eu hysbysebu'n eang. Ar wefan GwerthwchiGymru, mae dolen i fynd â chi'n uniongyrchol at Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU). Mae'n rhaid cyhoeddi contractau sydd uwchlaw trothwyon yr UE yn y Cyfnodolyn hwn.
- **Gwefan www.ceredigion.gov.uk.** Ar dudalen Caffael y Cyngor, mae dolen i fynd â chi'n uniongyrchol at yr hysbysiadau ar wefan GwerthwchiGymru.

*"Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cofrestru ar wefan GwerthwchiGymru i gael gwybod am gyfleoedd am ddim."*

Mae'r Cyngor yn annog cyflenwyr i gofrestru ar wefan GwerthwchiGymru. Gallwch gofrestru am ddim i dderbyn negeseuon e-bost i gael gwybod yn awtomatig am dendrau, cael cipolwg ar gyfleoedd drwy'r Byrddau Bwletin, diweddaru a chynnal eich proffil, cael cyfarwyddiadau ynghylch sut i gael gafael ar ddogfennau tendro, a gweld manylion y contractau a ddyfarnwyd.

*I fynd i wefan GwerthwchiGymru, cliciwch ar yr eicon isod:*

Sell2Wales | Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Sylwch:** Mae'n bwysig eich bod yn cofrestru ar gyfer y categorïau sy'n berthnasol i'r nwyddau/gwasanaethau/gwaith rydych chi'n eu cyflenwi yn unig. O wneud hynny, dim ond hysbysiadau am gyfleoedd sy'n berthnasol i'ch maes gwaith chi y byddwch chi'n eu cael.

Mae nifer o sefydliadau'n darparu cymorth a chefnogaeth. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'r adran '**Mwy o gymorth**'.

# Pa reolau, rheoliadau a gweithdrefnau caffael y mae’r Cyngor yn eu dilyn?

Mae rheolau’r Undeb Ewropeaidd (UE), deddfwriaeth y Deyrnas Unedig (DU) a Rheolau Gweithdrefn Gontractio’r Cyngor ei hun yn rheoli’r ffordd y mae’r Cyngor yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith.

Yn unol â’r gyfraith, mae’n rhaid i Gyngor Ceredigion gydymffurfio â Chyfarwyddebau Caffael yr UE sy’n rheoli’r ffordd y mae’r sector cyhoeddus yn caffael ar gyfer contractau uwchlaw’r trothwyon isod:

| Goods | Services | Works |
|---|---|---|
| £181,302 | £181,302 | £4,551,413 |

Ffigur 2: Trothwyon yr UE (y gwerthoedd sydd ar waith am ddwy flynedd o 1 Ionawr 2018)

Diben Cyfarwyddebau’r UE yw annog cystadleuaeth agored a thryloyw drwy broses dendro gystadleuol ledled yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i’r holl waith caffael yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys contractau islaw trothwyon yr UE, gydymffurfio ag egwyddorion Cytuniad yr UE, sef triniaeth gyfartal, dim gwahaniaethu, cyd-gydnabyddiaeth, cymesuredd a thryloywder.

Mae Rheolau Gweithdrefn Gontractio’r Cyngor yn darparu fframwaith i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario gydag uniondeb ac atebolrwydd amlwg, beth bynnag yw gwerth y contract.

Cyn dewis cyflenwyr allanol, bydd y Cyngor yn penderfynu a oes modd ateb y gofyn drwy gontract neu gytundeb fframwaith sy’n bodoli eisoes (gweler Pam ydym ni’n defnyddio Cytundebau Fframwaith?’). Os nad oes modd ateb y gofyn drwy gontract neu gytundeb fframwaith sy’n bodoli eisoes, byddwn yn rhoi proses Cais am Ddyfynbris (RFQ) neu broses Dendro ar waith, gan ddibynnu ar werth y contract, fel y nodir yn y tabl yn Ffigur 3 ar y dudalen nesaf.


| Cais am ddyfynbris neu dendr | Gwerth | Proses | Hysbyseb |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau am ddyfynbris**<br><br>Prynwyr mewn meysydd gwasanaeth sy'n cyflawni'r broses hon, a hynny fel arfer drwy anfon cais am ddyfynbris drwy e-bost at gyflenw(y)r. | Llai na £5k | Gwerth Gorau | Gall y prynwr benderfynu a oes angen hysbysebu'r cyfle. |
| | £5k hyd at lai na £25k | Gofyn am o leiaf 4 dyfynbris (rhaid i o leiaf 2 ddod i law) | |
| **Tendrau**<br>Defnyddir Gweithdrefn Gyfyngedig neu Weithdrefn Agored ar gyfer y rhan fwyaf o'r tendrau gwerth dros £100k. | £25k hyd at lai na £100k | Gofyn am o leiaf 5 dyfynbris/tendr. Rhaid i o leiaf 3 dyfynbris/tendr ddod i law | Gellir penderfynu yn ôl disgresiwn a oes angen hysbysebu, gan ddibynnu ar y math o gaffael. Gellir hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. |
| **Y Weithdrefn Gyfyngedig = 2 gam**<br>Holiadur Cyn Cymhwyso (PQQ) a Gwahoddiad i Dendro (ITT). | £100k hyd at islaw trothwy'r UE | Rhaid gwahodd o leiaf 5 tendr (o leiaf 3 ddod i law) | Gosodir hysbysebion ar wefan GwerthwchiGymru |
| **Y Weithdrefn Agored = 1 cam**<br>Dogfen dendro sy'n cynnwys detholiad o gwestiynau (sy'n cyfateb i'r PQQ) a chwestiynau dyfarnu (sy'n cyfateb i'r ITT). | Uwchlaw trothwy'r UE | Mae Cyfarwyddebau Caffael yr UE yn berthnasol | Rhaid cyhoeddi hysbysebion yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU). Mae dolen uniongyrchol at y Cyfnodolyn ar wefan GwerthwchiGymru. |

Ffigur 3: Prosesau Caffael

Rhaid i brosesau caffael yr UE fodloni'r **amserlenni gofynnol** a nodir yng Nghyfarwyddebau Caffael yr UE. Mae'r rhain yn amrywio gan ddibynnu ar y broses gaffael a pha un a gafodd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) ei gyhoeddi ai peidio. Bydd yr union amserlen hefyd yn amrywio yn ôl maint a chymhlethdod y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sy'n cael eu caffael.

***"Mae angen i'r Cyngor brynu mewn modd sy'n gyfreithlon, yn rheoli risg ac yn rhoi gwerth am arian"***

Er bod yr union broses a ddefnyddir i ddewis a phenodi cyflenwyr yn dibynnu ar werth y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sy'n cael eu caffael, bydd y broses i bob pwrpas yn cynnwys y camau a ganlyn, sy'n cael eu hegluro'n fanylach islaw.




## Rhoi gwybod i gyflenwyr am geisiadau am ddyfynbris neu gyfleoedd tendro

Gall y Cyngor roi gwybod i gyflenwyr am geisiadau am ddyfynbrisiau neu gyfleoedd i dendro mewn tair ffordd.

Bydd y prynwyr naill ai:

- Yn **pori** drwy'r cyfeiriadur cyflenwyr ar wefan GwerthwchiGymru ac yn gwahodd cyflenwyr priodol i roi dyfynbris neu i dendro ar sail isafswm y dyfynbrisiau neu'r tendrau sydd eu hangen (fel y dangosir yn y tabl uchod); neu
- Yn **anfon** hysbysiad o gontract drwy e-bost at bob cyflenwr sydd wedi cofrestru o dan y categori nwyddau, gwasanaethau neu waith perthnasol ar wefan GwerthwchiGymru; neu
- Yn **gosod** hysbyseb ar wefan GwerthwchiGymru y gall unrhyw gyflenwr ei gweld. Bydd yr hysbyseb yn rhoi gwybod i gyflenwyr sut i gael gafael ar y dogfennau tendro a sut i gyflwyno ymateb. Bydd unrhyw gontract sy'n cael ei hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru sydd uwchlaw trothwyon yr UE yn cael ei gyhoeddi'n awtomatig yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Pan fyddwn yn hysbysebu contract gyda'r bwriad o gynnal ymarfer e-dendro, byddwn yn cyfeirio darpar ymgeiswyr at wefan eDendroCymru er mwyn iddynt **fynegi diddordeb**. Nid yw cofrestru ar wefan eDendroCymru yn ddigon i fynegi diddordeb. Os bydd cyflenwr yn dod ar draws cyfle sydd o ddiddordeb iddo, bydd angen iddo ddewis y cyfle hwnnw a chlicio ar 'Mynegi Diddordeb' er mwyn mynegi diddordeb. Ni fydd dogfennau tendro contractau a ***hysbysebwyd*** yn cael eu hanfon at gyflenwyr drwy e-bost. Bydd rhaid i'r cyflenwyr lawrlwytho'r dogfennau o wefan eDendroCymru pan fydd ymarfer e-dendro ar waith.

## Dewis cyflenwyr addas a chymwysedig

Pan fydd cyfleoedd yn cael eu hysbysebu, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y cyflenwyr yn addas ac yn gymwysedig i ateb gofynion y contract.

I asesu a yw cyflenwr yn addas, bydd y Cyngor naill ai:

- Yn dosbarthu Holiadur Cyn Cymhwyso (ar gyfer y weithdrefn gyfyngedig).
- Yn defnyddio cwestiynau dethol fel rhan o'r broses dendro (ar gyfer y weithdrefn agored).
- Yn dosbarthu Ffurflen Hunan-ardystio.
- Yn dibynnu ar y data sydd gan y Cyngor eisoes am y cyflenwr.

I sicrhau bod y Cyngor yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n gyson ac yn gymesur â gwerth, risg a chymhlethdod y contract, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Y Dogfen Ewropeaidd gaffael sengl ynghyd â **Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SquiD)** Llywodraeth Cymru. Mae'r gronfa ddata hon yn darparu set safonol o gwestiynau a chanllawiau ar sut i'w defnyddio yn y meysydd a ganlyn:

- **Pa mor dderbyniol yw'r cyflenwr:** rhesymau dewisol dros wahardd cynigydd yn ôl disgresiwn ar sail troseddau fel cynllwynio, llygredd, twyll, llwgrwobrwyo, methdaliad ac ansolfedd.
- **Sefyllfa economaidd / ariannol:** mewn rhai achosion, gall fod angen i ddarpar gyflenwyr gofrestru â Dun & Bradstreet (D&B) a/neu ddarparu ffigurau elw a cholled y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o wasanaethau sy'n cael eu caffael.
- **Yswiriant:** gall fod gofyn i ddarpar gyflenwyr ddarparu tystiolaeth fod ganddynt yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr, Atebolrwydd Cyhoeddus ac Indemniad Proffesiynol digonol.
- **Cymhwysedd technegol a chymwysterau:** tystiolaeth sy'n dangos bod y cyflenwr yn bodloni gofynion penodol y contract o ran cymwyseddau neu gymwysterau e.e. Gas Safe.
- **Capasiti a gallu:** manylion am brofiad blaenorol a chontractau a gyflawnwyd.
- **Rheoli:** gwybodaeth am dechnegau sicrhau ansawdd ac adolygu perfformiad.
- **Cyfle cyfartal:** cadarnhau ymrwymiad y cyflenwr i gyfle cyfartal.
- **Cynaliadwyedd:** cadarnhau ymrwymiad y cyflenwr i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- **Iechyd a diogelwch:** bydd hyd a lled yr asesiad yn briodol i natur y contract, gan ddibynnu ar y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith a gaiff eu darparu. Pan fydd y Cyngor yn pennu bod rhaid asesu Iechyd a Diogelwch, bydd rhaid bod y contractwyr wedi'u hachredu gan aelod o'r corff Cynlluniau Diogelwch ym maes Caffael (SSIP) (neu gorff cyfatebol) cyn bod modd dyfarnu unrhyw gontract.

Os yw'r cyflenwr yn bodloni'r gofynion uchod, bydd yn camu yn ei flaen i gam tendro/dyfarnu y broses gaffael.

**Sylwch na fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ymddygiad twyllodrus nac anfoesol gan unrhyw un o'i gyflenwyr.**

> "Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio SquID i symleiddio a safoni'r broses ddethol ac i sicrhau ei bod yn fwy tryloyw."

# Cyflwyno dyfynbris neu dendr a'r broses werthuso

Gan ddibynnu ar werth y contract, bydd y cyflenwyr a ddewisir yn cael Cais am Ddyfynbris (RFQ) neu Wahoddiad i Dendro (ITT).

**Cais am Ddyfynbris –** mae'r broses hon yn llawer symlach na'r broses dendro. Ar hyn o bryd, rydym fel arfer yn gofyn am ddyfynbris drwy e-bost a bydd cyflenwyr yn cael yr holl wybodaeth a ganlyn, neu rywfaint ohoni:

- **Cyfarwyddiadau** er mwyn cyflwyno dyfynbris.
- **Manyleb** sy'n rhestru'r gofynion (bydd rhaid i'r cyflenwyr seilio'u dyfynbris ar y fanyleb hon).
- **Datganiadau dull** (cwestiynau sy'n gofyn sut y bydd y cyflenwr yn bodloni'r gofynion).
- **Y meini prawf gwerthuso a'r fethodoleg sgorio** (os oes materion ansawdd i'w gwerthuso hefyd).

Fel arfer, bydd gofyn i gyflenwyr anfon dyfynbris atom drwy e-bost.

**Tendr –** mae'r broses hon yn llawer mwy cynhwysfawr. Bydd cyflenwyr sy'n mynegi diddordeb yn y cyfle yn cael pecyn tendro a fydd yn cynnwys nifer o ddogfennau tendro.

Byddant yn derbyn y dogfennau hyn drwy'r post neu byddant yn eu lawrlwytho o wefan eDendroCymru. Fel rheol, bydd y pecyn tendro'n cynnwys:

- **Cyfarwyddiadau** i'r sawl sy'n tendro / ymgeisio.
- **Manyleb** sy'n rhestru'r gofynion.
- **Datganiadau dull** (cwestiynau sy'n gofyn sut y bydd y cyflenwr yn cyflawni'r gofynion).
- **Y meini prawf gwerthuso a'r fethodoleg sgorio**.
- **Rhestr brisio**.
- **Telerau ac amodau'r contract**.
- **Ffurflen dendro**.
- **Label dychwelyd tendr**.

Yn ystod y cyfnod tendro/dyfarnu, bydd y Cyngor yn gwerthuso'r ffordd y mae'r cyflenwr yn bwriadu ateb y gofynion penodedig a'r gost. Mae hyn yn wahanol i'r *cyfnod dethol* sy'n pennu a yw'r cyflenwr yn gymwys ar sail ei allu a'i gapasiti yng ngoleuni ei *brofiad blaenorol.*

Byddwn yn asesu'r ymatebion ar sail pasio/methu neu ar sail sgôr. Bydd y pecyn tendro'n nodi popeth y mae angen i'r sawl sy'n tendro ei wybod am y ffordd y byddwn yn ei werthuso.

Byddwn yn gwerthuso'r tendr ar sail un o'r meini prawf a ganlyn:

1. **Pris ac ansawdd** – defnyddir y maen prawf hwn ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau a'r gwaith (os nad y cyfan). Y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd (MEAT) yw'r term a ddefnyddir i'w ddisgrifio ac mae gwahanol elfennau'n cael gwahanol bwysoliad, er enghraifft, 40% am y pris a 60% am yr ansawdd.

2. **Pris yn unig** (y gost isaf).

Er mwyn i ni asesu'r meini prawf ansawdd, byddwn yn gofyn i'r cyflenwyr gyflwyno ymateb ysgrifenedig. Lle bo'n briodol, efallai y byddwn yn eu gwahodd i gael cyfweliad a/neu i roi cyflwyniad hefyd.

# Dyfarnu contract

**Cais am ddyfynbris** — fel arfer, byddwn yn dyfarnu'r contract i'r cyflenwr sydd wedi cyflwyno'r pris isaf. Fodd bynnag, os byddwn hefyd yn gwerthuso ansawdd, efallai na fydd y cyflenwr sydd wedi cyflwyno'r pris isaf o reidrwydd yn ennill y contract.

**Tendr –** O ran y tendrau sy'n cael eu gwerthuso ar sail y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd (MEAT), byddwn yn dyfarnu'r contract i'r tendr sydd wedi cael y sgôr uchaf drwyddi draw. O ran y rheini sy'n cael eu gwerthuso ar sail pris yn unig, byddwn yn dyfarnu'r contract i'r cyflenwr sydd wedi cyflwyno'r pris isaf.

## Budd i'r gymuned


Pan fo'n briodol, mae'r Cyngor yn ceisio cynnwys buddion cymunedol yn ei weithgareddau caffael i sicrhau bod materion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn cael sylw. Ein nod yw annog cyflenwyr a chontractwyr i ystyried ffyrdd o ychwanegu gwerth at gymunedau lleol, er enghraifft:

- Darparu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth i bobl sy'n economaidd anweithgar.
- Cydweithio ag ysgolion a chymunedau lleol i helpu pobl ifanc ddi-waith i gael profiad drwy brentisiaethau neu waith gwirfoddol.
- Mynnu bod prif gontractwyr yn cynnig cyfleoedd is-gontractio i fusnesau lleol, busnesau bach a chanolig a'r trydydd sector, h.y. drwy ddigwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr'.

O ran contractau uwch eu gwerth gallwn ofyn i'r rhai sy'n tendro gyflwyno Cynllun Buddion Cymunedol neu Ddatganiad Dull sy'n nodi sut y byddant yn sicrhau buddion i'r gymuned drwy'r contract.

**Sylwch:** Dim ond os ydynt yn **rhan ganolog** o weithgareddau'r contract y gallwn werthuso a sgorio buddion cymunedol (h.y. eu cynnwys yn y meini prawf dyfarnu). Os nad yw buddion cymunedol yn rhan ganolog o weithgareddau'r contract, ni fyddant yn rhan o'r gwerthusiad; serch hynny, bydd y contractwyr yn ymrwymo i'w cyflawni yn y contract.

*I gael mwy o wybodaeth am gynnwys Buddion Cymunedol, cliciwch yma: 'Budd i'r Gymuned: Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru.'*




***"Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau'r budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf i bobl Cymru drwy gynnwys buddion cymunedol yn ei weithgarwch caffael."***

## Pam ydym ni'n defnyddio cytundebau fframwaith?

Pan fo'n briodol, bydd y Cyngor yn sefydlu cytundeb fframwaith ar gyfer mathau cyffredin o wariant, lle mae'n prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith yn fynych.

Mae cytundebau fframwaith yn nodi'r telerau a'r amodau bras a ddefnyddir gan y sefydliad pan fydd yn prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith gan gyflenwyr yn y dyfodol. O dan gytundebau fframwaith, gall fod un cyflenwr neu nifer o gyflenwyr. Gallant bara am hyd at bedair blynedd.

Cyn gofyn am ddyfynbrisiau neu dendrau, bydd y Cyngor yn mynd ati yn gyntaf i bennu a oes fframwaith yn ei le eisoes i ateb ei ofynion. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw fframweithiau a sefydlwyd gan sefydliadau prynu cydweithredol fel Consortiwm Prynu Cymru, Gwerth Cymru a grwpiau cydweithredol eraill fel Gwasanaeth Caffael y Llywodraeth. Mae'r mathau a ganlyn o fframweithiau ar gael:

- Fframweithiau rhanbarthol: Fforwm Caffael Ceredigion, e.e. Fframwaith Mân Weithiau Ceredigion
- Fframweithiau cenedlaethol (Cymru): Llywodraeth Cymru Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, e.e. deunydd swyddfa.
- Fframweithiau cenedlaethol eraill, e.e. Gwasanaethau Masnachol y Goron (CCS), Eastern Shires Purchasing Consortium (ESPO), North East Purchasing Organisation (NEPO).

I baratoi ar gyfer cyfleoedd sydd yn yr arfaeth, rydym yn cynghori cyflenwyr i ddod i wybod pa fframweithiau sydd ar fin dod i ben.

## Ceisiadau consortia a cheisiadau cydweithredol

Mae Cyngor Ceredigion yn annog cyflenwyr a chontractwyr i gyflwyno ceisiadau consortia neu geisiadau cydweithredol am waith y Cyngor, yn enwedig ar gyfer contractau uwch eu gwerth neu gontractau cymhleth. O gyflwyno cais consortiwm, gall fod gwell siawns o ennill y contract. Gall fod yn arbennig o fuddiol i fusnesau bach a chanolig a sefydliadau yn y Trydydd Sector nad oes ganddynt y sgiliau na'r capasiti i gyflwyno ceisiadau ar gyfer contractau mwy ar eu pen eu hunain. Mae'r Cyngor yn sylweddoli bod cyflwyno cais consortiwm neu gais cydweithredol yn her ar ddechrau'r broses dendro. Felly, i roi cyfle i gyflenwyr baratoi ceisiadau consortia neu geisiadau cydweithredol, bydd y Cyngor yn ceisio darparu digon o wybodaeth i'r cyflenwyr cyn i'r proses dendro ddechrau.

Yn ogystal â chydweithio neu weithio ar ffurf consortia, rydym yn annog busnesau bach a chanolig a sefydliadau yn y Trydydd Sector i chwilio am gyfleoedd is-gontractio ac i feithrin cysylltiadau â'r prif gyflenwyr. Gall y prif gyflenwyr helpu i roi gwybod am gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi drwy hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru neu drwy ddigwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr'

Mae nifer o sefydliadau'n darparu cymorth a chefnogaeth. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'r adran 'Mwy o gymorth'.

## A oes modd i'r sefydliadau sy'n tendro gael adborth?

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi adborth i'r rhai sydd wedi cyflwyno tendr llwyddiannus ac aflwyddiannus i roi gwell siawns iddynt lwyddo yn y dyfodol. Lle bo'n briodol, mae'n debygol y byddwn yn rhoi adborth ysgrifenedig yn y llythyr sy'n rhoi gwybod i gyflenwyr nad yw eu tendrau'n llwyddiannus. Gallwn ddarparu mwy o wybodaeth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, cyhyd â bod ceisiadau am adborth yn cael eu cyflwyno'n **ysgrifenedig** (drwy e-bost).

## Sut y mae'r Cyngor yn talu'i gyflenwyr?

Dylai'r telerau talu fod wedi'u nodi yn nogfennau'r contract ac, oni bai ei fod yn cytuno fel arall, mae'r Cyngor yn anelu at dalu pob anfoneb cyn pen 30 diwrnod ar ôl iddi ddod i law. Os oes ymholiad neu anghydfod ynghylch anfoneb, mae'r Cyngor yn anelu at dalu'r anfoneb cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r ymholiad neu'r anghydfod gael ei ddatrys.

I sicrhau bod anfoneb yn cael ei thalu'n brydlon, dylech sicrhau eich bod yn rhoi rhif archeb dilys ar **bob** anfoneb. Os na fydd cyflenwr yn nodi rhif archeb dilys ar ei anfoneb, gall fod oedi cyn iddo gael ei dalu. Felly, rydym yn annog cyflenwyr i fynnu eu bod yn cael rhif archeb dilys oddi wrth y sawl sy'n gosod yr archeb ar ran y Cyngor.

## Monitro a rheoli contractau

Bydd disgwyl i gyflenwyr a chontractwyr gyflawni'u rhwymedigaethau i ddarparu'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith yn unol â'r gofynion a bennir yn nogfennau'r contract a dangos gwerth am arian. Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i sicrhau bod perthynas waith dda, agored ac adeiladol rhyngddo a'i gyflenwyr a'i gontractwyr. O feithrin perthynas o'r fath, bydd hefyd yn helpu i nodi ac i ddatrys unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl.

## Gair i gall

| GWNEWCH HYN | PEIDIWCH Â GWNEUD HYN |
| --- | --- |
| Cewch gipolwg ar y dyddiad cau a'r dyddiad y mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch tendr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn neilltuo digon o amser i lenwi'r dogfennau.<br><br>Dilynwch y cyfarwyddiadau i ddychwelyd eich tendr i'r Cyngor.<br><br>Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau gan roi manylion am y gofynion penodedig a darparu tystiolaeth fel y nodir yn y canllawiau.<br><br>Gofynnwch am eglurhad os nad ydych yn sicr am unrhyw ran o'r fanyleb neu os oes gennych gwestiynau cyffredinol am y dogfennau tendro, gan gynnwys telerau ac amodau'r contract. Gallwch gyflwyno ymholiadau drwy wefan eDendroCymru (os yw'r porthol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y broses dendro) neu drwy e-bost.<br><br>Cofiwch ymateb yn brydlon i unrhyw gais gan y Cyngor am ragor o wybodaeth. | Peidiwch â dychwelyd eich tendr ar ôl y dyddiad neu'r amser cau oherwydd **ni fyddwn yn ystyried tendrau hwyr, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol**.<br><br>Peidiwch â rhoi eich enw / enw'r cwmni nac unrhyw wybodaeth arall ar yr amlen a allai ddangos pwy sydd wedi anfon y pecyn. **Os byddwch yn gwneud hynny, ni fyddwn yn ystyried eich tendr.** (Nid yw hyn yn berthnasol i e-dendrau.)<br><br>Peidiwch â 'chreu' eich cwestiynau eich hun er mwyn i chi allu cynnwys yr hyn a fynnoch yn eich ateb. Dim ond y wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani y gallwn ni ei gwerthuso.<br><br>Peidiwch â gadael i'r dogfennau eich digalonni. Gofynnwch am gymorth e.e. gan gynghorwyr tendro, drwy fynd i ddigwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' (gweler 'Mwy o gymorth' ar y dudalen nesaf).<br><br>Peidiwch â chyflwyno prisiau sydd mor isel fel na fydd modd i chi gyflenwi'r nwyddau/gwasanaethau am y pris hwnnw at y safon ofynnol os byddwn yn dyfarnu'r contract i chi. Mae gan y Cyngor hawl i wrthod unrhyw dendr os nad yw'n credu ei fod yn hyfyw. |

## Mwy o gymorth

Gwasanaeth newydd gan Lywodraeth Cymru yw **Busnes Cymru**. Mae'n darparu gwybodaeth, arweiniad, cymorth a gwasanaeth mentora un-i-un i fusnesau o bob maint yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth dros y ffôn, ar-lein a thrwy rwydwaith o un ar ddeg siop un stop ar hyd a lled Cymru.

Mae Busnes Cymru hefyd yn darparu cymorth contractio a thendro penodol i fusnesau bach a chanolig drwy '**Busnes Cymru – Tendro'.** Cyn mis Ionawr 2013, roedd y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr (SDS) yn darparu cymorth o'r fath, ond nid yw'r Gwasanaeth hwnnw'n bodoli mwyach. Mae **cynghorwyr tendro** (Hyrwyddwyr Datblygu Cyflenwyr yn flaenorol) wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru ac maen nhw'n cydweithio â busnesau bach a chanolig a sefydliadau yn y Trydydd Sector i feithrin eu gallu, yn cynnal gweithdai ac yn helpu cyflenwyr i lenwi dogfennau tendro. I gael mwy o wybodaeth am 'Busnes Cymru – Tendro', ewch i'r adran 'Tyfu busnes' ar wefan Busnes Cymru. (Cewch hyd i ddolen a manylion cyswllt y cynghorwyr tendro ar ddiwedd y llawlyfr hwn.)

Mae'r Cyngor a Busnes Cymru'n cynnal **digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr** i roi gwybodaeth i gyflenwyr am gyfleoedd contractio a'r broses dendro. Gall y digwyddiadau hyn hefyd fod yn gyfle i gyflenwyr gwrdd â phrif gontractwyr i ddod i wybod am gyfleoedd is-gontractio posibl neu gyfleoedd posibl yn y gadwyn gyflenwi.

Mae gan **Ganolfan Cydweithredol Cymru** dîm arbenigol sy'n gallu helpu sefydliadau i ddatblygu consortia. Gall y tîm eich helpu i strwythuro'ch consortiwm, a gall roi cyngor i chi am y materion llywodraethu a'r materion cyfreithiol a allai effeithio arnoch chi.

***Cewch hyd i fanylion cyswllt y sefydliadau uchod ar ddiwedd y llawlyfr hwn.***

## Rydym yn awyddus i glywed gennych chi

Nod y llawlyfr hwn yw helpu sefydliadau sydd am weithio gyda Chyngor Ceredigion i ddeall mwy am y camau i'w cymryd i ymgeisio am waith a'r hyn y bydd gofyn iddynt ei wneud fel cyflenwyr neu gontractwyr.

Mae croeso i chi roi adborth i ni er mwyn i ni wella'r llawlyfr hwn. Pa wybodaeth sydd ar goll? Pa wybodaeth arall fyddech chi'n hoffi ei chael yn y dyfodol?

Mae croeso i chi roi adborth i ni hefyd am eich profiad o wneud busnes gyda'r Cyngor, am wasanaeth y tîm caffael ac am unrhyw faterion neu broblemau sydd wedi codi.

Anfonwch eich sylwadau at caffael@ceredigion.gov.uk

## Gwefannau defnyddiol

| SEFYDLIAD | |
|---|---|
| Cyngor Ceredigion – Caffael | https://www.ceredigion.gov.uk/business/procurement/ |
| GwerthwchiGymru | http://www.gwerthwchigymru.gov.uk |
| Constructionline | www.constructionline.co.uk/static |
| SSIP (Iechyd a Diogelwch) | www.ssip.org.uk |
| Tenders Electronic Daily (TED) | ted.europa.eu/TED/main/HomePage.do |
| Gwefan Gwybodaeth Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig | www.gov.uk |
| Working Links | www.workinglinks.co.uk |
| Deddfwriaeth yr UE / Rheoliadau Contractau Cyhoeddus<br>PDF | www.legislation.gov.uk/uksi/2006/5/contents/made<br>www.legislation.gov.uk/uksi/2006/5/pdfs/uksi_20060005_en.pdf |
| Gwasanaethau Rhan A a Rhan B (tendrau'r UE) | www.legislation.gov.uk/uksi/2006/5/schedule/3/made |
| Gwasanaeth Caffael y Llywodraeth | https://www.gov.uk/government/publications/become-a-crown-commercial-service-supplier |
| Eastern Shires Purchasing Organisation (ESPO) | www.espo.org |
| North East Procurement Organisation (NEPO) | www.qtegov.com |

## Manylion cyswllt defnyddiol

| SEFYDLIAD | ENW CYSWLLT | RHIF FFÔN | E-BOST | DOLEN |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Ceredigion – Caffael | Caffael | 01970 633051 | caffael@ceredigion.gov.uk | www.ceredigion.gov.uk |
| Busnes Cymru | | 030 0060 3000 | | http://business.wales.gov.uk/cy |
| Cynghorydd Tendro (Busnes Cymru) | Guto Carrod | 07800 587066 | Guto.Carrod@businesswales.org.uk | |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Gwasanaethau i Gwsmeriaid | 0800 2888 329 | help@wcva.org.uk | http://www.wcva.org.uk/home?seq.lang=cy-GB |
| Canolfan Cydweithredol Cymru | | 0300 111 5050 | info@walescooperative.org | http://www.walescooperative.org/hafan |
| Busnes mewn Ffocws | Gwasanaethau i Gwsmeriaid | 0870 950 90 90 | enquiries@businessinfocus.co.uk | http://www.businessinfocus.co.uk/cy/home.aspx |
| Y Ffederasiwn Busnesau Bach | Gwasanaethau i Gwsmeriaid | 0292 077 06 | wales.policy@fsb.org.uk | http://www.fsb.org.uk |
| Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr | Swyddfa Cymru | 01656 7509 55 | richardjenkins@fmb.org.uk | www.fmb.org.uk/about-fmb/fmb-regions/devolved-countries/welsh/ |
| | Y Brif Swyddfa | 020 722 7583 | | |
| | Ymuno â'r Ffederasiwn | 08000 965 765 | | |

## Swyddogion Caffael y Sector Cyhoeddus yng Ngheredigion

| SEFYDLIAD | ENW CYSWLLT | RHIF FFÔN | E-BOST | DOLEN |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Mike Smith | 01970 628611 | mks@aber.ac.uk | http://www.aber.ac.uk/cy/ |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | Alun James | 01970 635837 | alun.james@wales.nhs.uk | www.hywelddahb.wales.nhs.uk |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Karen Deakin | 01970 632993 | karen.deakin@llgc.org.uk | http://www.llgc.org.uk |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Sian Poyer | 01267 676779 | s.poyer@tsd.ac.uk | http://www.uwtsd.ac.uk |
| Tai Ceredigion | Llyr Edwards | 01570 424330 | llyr.edwards@taiceredigion.org.uk | http://www.taiceredigion.org.uk |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Amy Turner | 0300 0680300 | procurementserviceswales@forestry.gsi.gov.uk | http://naturalresourceswales.gov.uk/splash?orig=/ |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Helen Rees | 01267 226849/01792 705255 | h.rees@mawwfire.gov.uk | www.mawwfire.gov.uk/Pages/Welcome.aspx |
| Heddlu Dyfed Powys | Elizabeth Frizi | 01267 226540 | Liz.frizi@dyfed-powys.pnn.police.uk | http://www.dyfed-powys.police.uk |